

Panel Ymgynghorol yr Iaith Gymraeg

Welsh Language Advisory Panel

5 Rhagfyr 2019 am 13:30

Ystafell Gynadledda Democrataidd, Neuadd y Sir

COFNODION A PHWYNTIAU GWEITHREDU

Yn bresennol:

| | | |
|------------------------------|-----|--------------------------------|
| Cyng. Peter Hughes Griffiths | PHG | Plaid Cymru (Cadeirydd) |
| Cyng. Edward Thomas | ETH | Annibynnol (Is-gadeirydd) |
| Cyng. Sue Allen | SA | Annibynnol |
| Cyng. Dorian Williams | DW | Plaid Cymru |
| | | |
| Swyddogion | | |
| Noelwyn Daniel | ND | Pennaeth TG a Pholisi |
| Llinos Evans | LLE | Swyddog Polisi a Phartneriaeth |
| Poppy Evans | PE | Adran yr Amgylchedd |
| Kelly Thomas | KT | Adran yr Amgylchedd |
| Rachel Jones | RJ | Tîm Blaengynllunio |
| Owain Enoch | OE | Tîm Blaengynllunio |

| Rhif eitem | Testun a phwyntiau gweithredu: | Yn gyfrifol: |
|------------|---|--------------|
| 1. | Croeso ac Ymddiheuriadau Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cyng. Peter Hughes-Griffiths Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cyng. Carys Jones, Tina Higgins, Joseph Davies, Fozia Akhtar, Wendy Walters, Gwyneth Ayers a Myfanwy Jones. Estynnwyd cydymdeimlad diffuant i'r Cynghorydd Tina Higgins a'i theulu. | |
| 2. | Cofnodion y Cyfarfod diwethaf Cytunwyd bod y cofnod yn un cywir. Nodwyd bod ymholiad wedi ei wneud gyda Gaynor Morgan, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd o ran defnydd o mod.gov drwy gyfrwng y Gymraeg. | |

| | | |
|-----------|--|-----------------------|
| | <p>Cytunwyd i drefnu cylchredeg dolen i'r meddalwedd cyfrwng Cymraeg i'r Cynghorydd Peter Hughes-Griffiths ac i'r Cynghorydd Dorian Williams.</p> <p>Nodwyd bod y cyfleoedd profiad gwaith y Cyngor bellach yn fyw ar y wefan a bod yna gwestiwn wedi gynnwys yn gofyn i'r bobl ifanc a fyddai diddordeb ganddynt i wneud elfen o'u profiad gwaith drwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>Cytunwyd i dderbyn diweddariad ar hyn maes o law.</p> | <p>LLE</p> <p>LLE</p> |
| 3. | <p>Arweinwyr Iaith Amgylchedd</p> <p>Croesawyd Poppy Evans a Kelly Thomas i'r cyfarfod yn cynrychioli Arweinwyr Iaith Adran yr Amgylchedd.</p> <p>Cafwyd cyflwyniad manwl gan yr Arweinwyr Iaith yn amlinellu rôl yr Arweinwyr o fewn yr adran a'r holl weithgareddau a drefnwyd gan yr Arweinwyr, gan gynnwys dathliadau Gŵyl Ddewi a'r Cwis ar Ddiwrnod Shwmae.</p> <p>Soniodd PE a KT am y cyfleoedd i ddysgu neu gloywi sgiliau iaith Gymraeg sydd ar gael drwy'r Cyngor ac esboniwyd bod rhwydwaith o Fentoriaid ar gael ar draws yr adran er mwyn cefnogi dysgwyr.</p> <p>Mae'r Arweinwyr hefyd wedi gwahodd cynrychiolwyr o'r newydd i ymuno a'r rhwydwaith o rhai o swyddfeydd eraill yr adran megis y depos yn ardal Llanelli.</p> <p>Cynhaliwyd cwis gyda'r Aelodau a cafwyd adborth ar-lein oddi wrth y Panel. Adnabuwyd y cyfleoedd o ran ehangu'r rhwydwaith, rhannu arfer da ac o ran cyfarfod gyda'r Arweinwyr Iaith adrannol eraill.</p> <p>Cafwyd trafodaeth o ran y defnydd o dechnoleg wrth hyrwyddo negeseuon o ran y Gymraeg ar draws y Cyngor a nododd ND bod gwaith ymchwil yn cael ei wneud o ran hyn ar hyn o bryd.</p> <p>Cafwyd adborth o ran ffurfioli cynllun yr Arweinwyr Iaith ac o bosib trefnu lansiad er mwyn bod Penaethiaid Gwasanaeth a Rheolwyr Trydydd Haen yn ymwybodol o'r holl weithgareddau a dyletswyddau yr Arweinwyr Iaith.</p> <p>Diolchwyd i'r Arweinwyr Iaith am eu cyflwyniad a'u gwaith drwy ystod y flwyddyn.</p> | |
| 4. | <p>Y Gymraeg a Chynllunio</p> <p>Croesawyd Rachel Jones ac Owain Enoch i'r cyfarfod.</p> <p>Cafwyd amlinelliad gan RJ o'r broses o ddatblygu'r Cynllun Datblygu Lleol. Bydd y gwaith ymgynghori ar y cynllun yn cychwyn yn gynnar yn y flwyddyn newydd. Nodwyd bod y maes / cynllun yn gorgyffwrdd a nifer o feysydd eraill, felly bydd y cynllun adneuo yn cael ei ddiweddarau'n gyson hyd nes y cyhoeddir yn ffurfiol.</p> <p>Amlinellodd RJ y Fforwm Rhanddeiliaid a nodwyd bod Ffred Ffrancis o Gymdeithas yr Iaith a Wyn Thomas o Dyfodol i'r Iaith yn eistedd ar y fforwm hynny, yn benodol o ran materion yn ymwneud a'r Gymraeg.</p> | |

| | | |
|------------------|--|--|
| | <p>Mae'r adborth drwy'r broses wedi tanlinellu pwysigrwydd y Gymraeg a phwysigrwydd ystyried unrhyw effaith negyddol neu cadarnhaol o ran yr Iaith. Yn yr un modd, mae rôl y Cynllun Datblygu i gadw pobl ifanc yn yr ardal wedi ei amlygu. Mae Tai Fforddiadwy hefyd yn flaenoriaeth, er mwyn cefnogi pobl ifanc a theuluoedd ifanc yn y sir.</p> <p>Yn ystod ym mis Medi, cytunodd y Cyngor llawn fod y Gymraeg yn ystyriaeth gynllunio berthnasol ar gyfer pob datblygiad o bump neu'n rhagor o dai yn Sir Gaerfyrddin wledig, a 10 neu'n rhagor o dai mewn ardaloedd trefol.</p> <p>Amlinellodd RJ y gwaith o baratoi yr Arfarniad Cynladwyedd ac mae'r Gymraeg yn cael ei hystyried o fewn y fframwaith hynny. Fel rhan o'r broses hynny ac er mwyn cyd-fynd a chanllawiau TAN 20, bydd y Tîm Blaengynllunio yn ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael iddynt er mwyn asesu effaith posib y Cynllun Datblygu.</p> <p>Nododd RJ bod y tîm wedi adnabod gwendid o ran cael methodoleg addas i allu asesu effaith. Mae'r tîm wedi trafod hyn ar lefel Cymru a chyda Comisiynydd y Gymraeg ond does dim byd wedi dod i'r amlwg. Felly, comisiynwyd darn o waith er mwyn edrych ar y meysydd canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Llunio methodoleg • Asesu effaith posib y Cynllun Adneuo • Asesu'r polisïau sy'n rhan o'r Cynllun Adneuo <p>Mae Cwmni Iaith a Chwmni Burum wedi paratoi methodoleg fanwl, sydd ar sail llawer mwy gwyddonol ac yn dwyn ynghyd tystiolaeth o nifer o feysydd megis data ysgolion. Bydd yr adroddiad yn cael ei cyflwyno i'r tîm o fewn yr wythnos nesaf a bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno fel rhan o broses cytuno'r Cynllun Adneuo.</p> <p>Mae potential y bydd y gwaith ymchwil hwn yn arwain at ganllawiau pellach o ran datblygwyr a sut y bydd unrhyw gamau lliniaru o ran y cynllun.</p> <p>Diolchwyd i RJ ac OE am gyflwyniad manwl.</p> | |
| <p>5.</p> | <p>Mae Gen ti Hawl</p> <p>Esboniodd LLE y cyd-destun o ran ymgyrch 'Mae Gen Ti Hawl'. Ar 6 Rhagfyr 2019, bydd sefydliadau cyhoeddus ar draws Cymru yn cynnal 'Diwrnod Hawliau'r Gymraeg.'</p> <p>Diwrnod yw hwn i ddathlu'r gwasanaethau Cymraeg mae sefydliadau'n eu cynnig, a'r hawliau sydd gan bobl i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddelio gyda nhw. Bydd yn gyfle i hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg ac i geisio cynyddu'r nifer sy'n dewis eu defnyddio.</p> <p>Hon yw'r flwyddyn gyntaf i'r ymgyrch genedlaethol gael ei chynnal. Dewiswyd y dyddiad er mwyn nodi'r dyddiad y cafodd y ddeddfwriaeth iaith ei phasio gan y</p> | |

| | | |
|-----------|---|--|
| | <p>Cynulliad yn 2010. Gobeithiwn y bydd yr ymgyrch yn cyrraedd nifer fawr o bobl eleni, a'r nod yw gwneud hyn yn ymgyrch flynyddol.</p> <p>Esboniwyd y bydd y cyngor yn cefnogi yr ymgyrch eleni ond gan ei bod hi'n gyfnod rhag-etholiadol, ni fydd modd cefnogi'r ymgyrch yn llawn.</p> | |
| 6. | Unrhyw fater arall Dim materion eraill yn codi. | |
| 7. | Dyddiad y cyfarfod 6 Chwefror 2020 am 13:30 | |